# Gweithredu offer ffordd a rheilffordd

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â dehongli gwybodaeth, mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol, defnyddio offer neu beiriannau, offer llaw a chyfarpar ategol, gosod, gweithredu a diffodd offer neu beiriannau ar gyfer gwaith ar draciau

Mae'r safon hon ar gyfer pobl sy'n gweithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm i weithredu offer ffyrdd a rheilffyrdd ar gyfer adeiladu, trwsio a chynnal a chadw traciau rheilffyrdd a'r ardaloedd o'u cwmpas, a gall gweithwyr, goruchwylwyr a rheolwyr ei defnyddio

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

P1dehongli'r wybodaeth a roddir am ddefnyddio peiriannau a chadarnhau ei pherthnasedd

P2trefnu gydag eraill ym mha drefn y dylid gwneud y gwaith

P3cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol a chyfredol, dogfennau
statws cyfreithiol arbennig, canllawiau swyddogol a gweithdrefnau’r sefydliad i gynnal arferion gwaith diogel ac iach

P4gofyn am adnoddau i gynnal gweithrediadau peiriannau neu offer er mwyn cwblhau’r rhaglen waith

P5dewis adnoddau peirianyddol ar gyfer y dulliau gweithio a’r gweithrediadau i'w cyflawni

P6cydymffurfio â gweithdrefnau’r sefydliad i leihau'r risg o ddifrod i'r gwaith a'r ardal o’i gwmpas

P7cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir yn y contract i wneud y gwaith yn effeithlon yn unol â’r gofynion

P8cwblhau'r gwaith o fewn yr amser a neilltuwyd yn unol â'r rhaglen waith

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*